# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Medi 2015

Amser: 13.30

# (285)v2

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5825 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at y ffaith bod ystadegau diweddar y Local Data Company yn nodi bod 15.6 y cant o siopau yn wag yn nhrefi Cymru, sef y gyfradd uchaf yn y DU o bell ffordd;

2. Yn gresynu at fethiant parhaus Llywodraeth Cymru i hyrwyddo strydoedd mawr a chanol trefi, helpu busnesau bach a sicrhau bod swyddi'n cael eu creu; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried o ddifrif y cynigion a amlinellir yn nogfennau'r Ceidwadwyr Cymreig, A Vision for the Welsh High Street' ac 'Invest Wales', a fyddai'n helpu busnesau bach a chanolig ac yn adfywio ein strydoedd mawr.

'A Vision for the Welsh High Street' (Saesneg yn unig)

'Invest Wales' (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r stryd fawr drwy sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau trafnidiaeth llesol yn wirioneddol hygyrch; cymhwyso ardrethi busnes i feysydd parcio mewn unedau adwerthu ar gyrion trefi; ac annog awdurdodau lleol i dreialu parcio am ddim cyfyngedig i gefnogi strydoedd mawr sy'n cael trafferthion.

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog awdurdodau lleol i weithio ar arallgyfeirio eu strydoedd mawr er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n eu defnyddio.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried ystod eang o fesurau i helpu busnesau bach, gan gynnwys y rhai sydd ar y stryd fawr, a fydd yn hwyluso mynediad at gyllid ac yn ymestyn rhyddhad ardrethi busnes.

## 5 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM5827 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi cyfryngau cryf fel elfen annatod o ddemocratiaeth rydd a llawn weithredol yng Nghymru;

2. Yn cydnabod effaith sylweddol y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol ar economi Cymru;

3. Yn pryderu am gynigion presennol Llywodraeth y DU ar gyfer y BBC cyn adnewyddu ei siarter yn 2016, gyda golwg arbennig ar ddarlledu yn Gymraeg ac yn Saesneg a BBC Cymru ac S4C cryf;

4. Yn galw ar ei bwyllgorau i ymchwilio i newidiadau sylfaenol i'r diwydiant cyfryngau er mwyn cefnogi ei swyddogaethau democrataidd yng Nghymru a gweithredu'r newidiadau hynny; a

5. Yn ailsefydlu is-bwyllgor darlledu er mwyn ffurfio barn a safbwynt ar adnewyddu siarter y BBC cyn gynted ag y bo modd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau sefydlogrwydd ariannol ac annibyniaeth olygyddol S4C.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i'r adolygiad o siarter y BBC.

## 6 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

(60 munud)

**NDM5826 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd y Rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n cynnig cefnogaeth amhrisiadwy i bobl fregus fyw'n annibynnol yn eu cymunedau ac i roi terfyn ar allgáu cymdeithasol.

2. Yn nodi bod y rhaglen wedi cynorthwyo dros 60,000 o bobl yng Nghymru y llynedd, gan gynnwys pobl ddigartref, pobl mewn perygl o drais yn y cartref, pobl hŷn, pobl anabl neu bobl sydd ag anghenion cymhleth.

3. Yn nodi y torrwyd cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl 8.3 y cant mewn termau real rhwng 2014-15 a 2015-16.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) adolygu gofynion gweinyddu a monitro'r Rhaglen Cefnogi Pobl i sicrhau bod cyllid yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer darpariaeth rheng flaen; a

b) amddiffyn y Grant Cefnogi Pobl o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn lleihau pwysau diangen ar wasanaethau statudol megis iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac yr amcangyfrifir y gall pob £1 a fuddsoddir yn y rhaglen hon arbed hyd at £2.30 i bwrs y wlad.

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer - Tynnwyd yn ôl

(0 munud)

**NDM5824 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)** Gwneud yn iawn am anghyfiawnder hanesyddol: achos Linda Lewis

Galw am ymchwiliad newydd i achos Linda Lewis, mam a gyhuddwyd ar gam.
Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 29 Medi 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Medi 2015 i'w hateb ar 23 Medi 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cyffordd 41 yr M4 ym Mhort Talbot? OAQ(4)0616(EST)

**2. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddamweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)0604(EST)

**3. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y byrddau dinas-ranbarthau? OAQ(4)0617(EST)**W**

**4. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â phrosiect ffordd gyswllt dwyrain bae Caerdydd? OAQ(4)0609(EST)

**5. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed yn y rhwydwaith bysiau T a ddarperir gan TrawsCymru? OAQ(4)0608(EST)**W**

**6. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0615(EST)

**7. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi economi gorllewin Cymru? OAQ(4)0600(EST)

**8. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ar y ffordd yng Nghymru? OAQ(4)0614(EST)

**9. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwella'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)0601(EST)

**10. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Network Rail? OAQ(4)0618(EST)

**11. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Chyngor Sir Penfro parthed tollau ar bont Cleddau? OAQ(4)0613(EST)**W**

**12. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i Faes Awyr Caerdydd? OAQ(4)0606(EST)

**13. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ar briffyrdd sy'n rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd? OAQ(4)0602(EST)

**14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer llety gwyliau yng Nghymru? OAQ(4)0612(EST)

**15. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru i gynyddu ffyniant yng Nghymru? OAQ(4)0611(EST)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith eraill ynghylch effaith y Bil Undebau Llafur ar ddeddfwriaeth Cymru? OAQ(4)0081(CG)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y mae'r Cwnsler Cyffredinol yn helpu'r cyhoedd i ddeall mwy am gyfreithiau Cymru? OAQ(4)0082(CG)**W**

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

**1. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Comisiwn y Cynulliad ddatganiad am anawsterau a brofwyd mewn perthynas â'r cyfeiriad e-bost cynulliad.cymru wrth danysgrifio i wefannau eraill? OAQ(4)0088(AC)